Funded By
communities first cymunedau yn gyntaf

LLAIS OLDFORD
Rhifyn Arbennig

Oldford Voice
Medi 2009

Diwrnod Hwyl Y Trallwng 2009

Yn y rhifyn hwn:

Diwrnod Hwyl Y Trallwng 1
Amserlen y Diwrnod Hwyl 2
Talebau Sioe Gŵn 3
Arddangosfa Gwasanaethau 999 4

Dydd Sadwrn 26ain Medi
Caeau Ysgol Maesydre
10.30yb ~ 4.30yp

Ydych chi'n cofio'r Diwrnod Hwyl cyntaf yn y Trallwng? Roedd yn gymaint o lwyddiant penderfynwyd cynnal Diwrnod Hwyl Y Trallwng 2009! Mae Cymunedau yn Gyntaf Oldford a'r Gwasanaethau Brys 999 wedi cyfuno i gynnal y digwyddiad hwyl yma.

Peth cyffrous iawn yw gallu rhoi cip ymlaen llaw i chi o'r hyn fydd yn digwydd a phwy fydd yno. Bydd llu o weithgareddau hwyl am ddim i bobl o bob oed!

Rydym yn awyddus i bawb fod yn rhan o'r digwyddiad, a chewch gyfle trwy gymryd rhan yn y nifer o weithdai fydd ar gael yn ystod y dydd, neu drwy roi enw eich cyfaill â phedair coes yn y Sioe Gŵn Hwyl! Bydd arddangosfeydd cyffrous gan y gwasanaethau 999 a Chanolfan Hebogyddiaeth Canolbarth Cymru! Beth am adael i'r plentyn tu fewn i chi fwynhau ar yr 'Extreme Trampolîn' a'r Teganau gwynt!

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

LLAIS OLDFORD

Arena Trafnidiaeth Pryce...

10.30yb	Agoriad swyddogol
10.40yb	Cerddoriaeth
11.00yb	Hedfan a Glanio Hofrennydd (Gweler y babell wybodaeth am leoliad)
11.45yb	Arddangosfa Cŵn yr Heddlu
12.15yp	Arddangosfa Hebogyddiaeth Canolbarth Cymru
12.45yp	Cyhoeddiadau / cerddoriaeth
1.00yp	Arddangosfa Gwasanaethau Brys 999 (yn ardal 999)
2.15yp	Sioe Gŵn Hwyl
3.30yp	Arddangosfa o Dân mewn Padell Sglodion (yn ardal 999)
4.00yp	Ras Balŵns
4.30yp	Gorffen

Beth am ddod draw i roi cynnig ar un o'r

Gweithdai rhad ac am ddim...

10.30yb - 1.30yp
Addurno potiau

10.30yb - 1.30yp
Gwneud barcud

1.30yp - 4.30yp
Gwaith coed

1.30yp - 4.30yp
Gwneud gemwaith cyfoes

Trwy'r dydd
Gweithdy cerddoriaeth

Dyma restr o rai o'r gweithgareddau a stondinau AM DDIM

- Bws Chwarae'r Jyngl Joli
- Cwrs Her y Fyddin
- Peli paent y Fyddin
- Hebogyddiaeth Canolbarth Cymru
- X-Treme Trampolîn
- Stondinau
- Crefftau
- Arddangosfeydd 999
- Cylch Gladiator
- Ceir Clasurol
- Cwrs Bynji
- Castell Gwynt
- Rangers Chwarae

Stondinau eraill….

- Coleg Powys
- 'Happy Balloons'
- Ymddiriedolaeth Natur
- Coleg Harlech
- Eglwys y Santes Fair
- 'Contact the Elderly'
- 'Cat Rescue'
- Y Groes Goch
- Y Brifysgol Agored
- Sgowtiaid Y Trallwng
- 'Action for Children'
- Y Get Going Gang
- Eglwys y Bedyddwyr
- Cwm Harry
- Genesis
- Canolfan Teuluol Drws Agored
- Cyngor Sir Powys
- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- A mwy

Sioe Gŵn Hwyl

50c y dosbarth i gystadlu:

* Cynffon mwyaf sigledig
* Mwyaf ufudd
* Coesau mwyaf tebyg i'r perchennog
* Ci mwyaf golygus
* Yr ast ddelaf
* Yr hen gi gorau (dros 8 oed)
* Y ci bach mwyaf dymunol (dan flwydd oed)
* Y cyflymaf i fwyta dantaith
* Y plentyn gorau yn trin ci
* Y ci byddai'r beirniad yn hoffi mynd adref gydag ef/hi

Dylid cofrestru eich ci yn y babell wybodaeth erbyn 1.45yp ar yr hwyraf. Dosbarthiadau'n cychwyn am 2.15yp yn Arena Trafnidiaeth Pryce.
Cwmni Milfeddygon Camlas, Y Trallwng sy'n noddi ac yn beirniadu'r digwyddiad hwn.

Prosiect Celf Gwasanaethau 999

Bydd plant o chwe ysgol leol yn creu stori a sgrîn wedi'i addurno ar thema gwasanaethau brys 999 fydd yn eu helpu i ddysgu ynghylch sut i gadw eu hunain yn ddiogel!

Yr ysgolion sy'n cymryd rhan yw:
Babanod Oldford, Gungrog, Ardwyn, Maesydre, Cegidfa a Thre'r Llai.

Dewch i weld gwaith celf y plant yn Niwrnod Hwyl y Trallwng 2009

Sioe Gŵn Hwyl

Taleb i 1x ci gystadlu AM DDIM

Dylid cyflwyno'r daleb hon yn y Babell Wybodaeth

Sioe Gŵn Hwyl

Taleb i 1x ci gystadlu AM DDIM

Dylid cyflwyno'r daleb hon yn y Babell Wybodaeth

Gwasanaethau Brys 999

Mae ein gwasanaethau brys yn gweithio'n ddiflino i'n gwasanaethu a'n diogelu ni pan fo angen. Nawr, cewch gyfle i'w gweld wrth eu gwaith!

Arddangosfa 999

1.00yp yn yr ardal 999

Bydd yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn rhoi arddangosfa o sefyllfa brys wrth iddyn nhw ddelio gyda damwain ffordd ffug.

Bydd aelodau o bob un o'r gwasanaethau brys ar gael wedyn i ateb cwestiynau a chynnig cyngor ar sut i gadw chi'ch hunan a'ch teulu yn ddiogel.

Bydd y canlynol ar gael:

- **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**
- **Uned Ddiogelwch Ffordd yr Heddlu**
- **Y Tîm Plismona Bro**
- **Diffoddwyr Tân Ifanc**
- **Yr Ambiwlans Awyr**
- **Uned Gŵn yr Heddlu**
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Diolch YN FAWR i'n holl noddwyr a phawb sydd wedi cefnogi'r digwyddiad yma!

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

communities first cymunedau yn gyntaf

ARMY BE THE BEST
REGULAR & TERRITORIAL

Clwb Cinio Oldford

NEOS Learning

LOTTERY FUNDED

Ysgol Maesydre

CAMLAS VETS

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Powys

WHAT'S ON WELSHPOOL